

Cyngor Cymuned Llanelian (332)

Cofnodion cyfarfod Chwefror 9, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Elfyn Hughes, Hefina Williams, Arfon Morgan, Alan Williams, Cyng Aled Morris Jones (hwyr), Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: John Griffiths, Thomas Jones, Cyng Richard Jones

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans a bu croesawu pawb yn bresennol. Bu croesawu hefyd Alan Williams i'w gyfarfod cyntaf yn aelod o'r Cyngor.

2 Datgan Diddordeb

Ian Evans – unrhyw drafodaeth ar lwybrau cyhoeddus (Elfyn Hughes i gadeirio'r eitem)

Nododd Elfyn Hughes bod nifer o gynghorwyr hefyd yn ymddiriedolwyr, neu ynghlwm a rheoli'r Neuadd. Byddai yn fuddiol gwneud cais i CSYM am ganiatad arbennig i drafod unrhyw faterion yn ymwneud a'r adeilad yn y dyfodol. Y clerch i wneud ymholiadau a'r Pwyllgor Safonau. CET

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 12/1/2021. Cynnig Hefina Williams, eilio Carol Whitaker, cefnogi'n unfrydol.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Nododd y clerch ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.

4.1 Materion Prifffyrdd - wedi ei gynnwys yn eitem agenda penodol (10) i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod.

4.2 Tir tu ol i dai pensiynwyr – nodwyd bod y mater yma wedi ei drafod mewn manylder yng nghyfarfod pwyllgor TMI. Bydd y clerch yn cysylltu a CSYM am wybodaeth pellach. CET

4.3 Sedd Wag - Croesawyd Alan Williams i'w gyfarfod cyntaf. Cadarnhaodd y clerch ei bod wedi cysylltu a'r swyddfa etholaeth i gadarnhau pwy oedd wedi eu cyfethol.

4.4 Llwybr Lletroed – y clerch i gysylltu eto a CSYM ynglyn a'r llwybr. Mae wedi ei gofrestru yn llwybr cyhoeddus gan fod arwyddion o'r fath a rhwystrau ar y lon fawr ble mae'n croesi. CET

4.5 Casglu Sbwriel – nododd Dafydd Griffiths ei fod wedi sylwi bod llawer o'r sbwriel sydd hyd y ffordd yn dod allan o finiau sydd yn orlawn. Gofynnodd os oedd CSYM yn asesu os oedd bin yn ddigonol i deulu h.y sut mae cael bin mwy i deulu mawr? Ydy hyn yn rywbeth i'r contractwyr sy'n gwagio'r biniau dynnu sylw neu yn gyfrifoldeb ar y teulu? Hefyd, mae rhai cyfeiriadau sydd a'u biniau ym mhell o'r ty, ac mae'r biniau hynnu wedi eu cloi. Gofynnodd am eglurhad sut oedd hyn yn gweithio – oedd gan y contractwyr oriadau eu hunain i gael gwagio'r biniau yma? Cytuno holi CSYM am fwy o wybodaeth gan gytuno byddai biniau mwy, o bosib gyda clo arnynt yn lleihau sbwriel ar y lon mewn ardaloedd gwyntog. CET

Bu Glenys Jones ddiolch i bwy bynnag oedd wedi bod yn casglu sbwriel ar Lon Gadfa am eu gwaith. Nid oedd sicrwydd ynteu gwirfoddolwyr ta contractwyr CSYM oedd wedi llenwi'r bagiau.

5 Diweddariadau

5.1 Caeau Chwarae – cafyd wybod bod Carol Whitaker wedi bod yn llwyddianus i ddiogelu grant ar gyfer paentio gemau ar y tarmac ym Maes Llwyfo; gobeithir bydd y gwaith yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnos. Bu diolch i Carol Whitaker am ei gwaith. Cafwyd ddiweddariad gan Glenys Jones am gael prisiau am darnacio o amlgylch y llwybr ym Maes Llwyfo. Mae angen o leiaf tri pris am brosiect o'r fath. Arfon Morgan i gysylltu a chwmnïau eraill i gyflwyno prisiau. Diolchwyd iddynt am eu hymdrechion. GJ AM

5.2 Llithrfa – cadarnhawyd bod cofnodion y pwyllgor wedi eu dosbarthu i'r aelodau drwy ebost. Bu i'r Cyngor gytuno yn unfrydol gydag argymhellion y pwyllgor bod pris gorïad yn aros yn £75 y flwyddyn. Nodwyd ei fod am gostio mwy i gofrestru gyda CSYM er mwyn gallu gwneud cais am oriad. Bu'r clerch esbonio'r cynllun er gwybodaeth.

Bydd angen adolygu ac asesu aelodaeth y pwyllgor yn fuan gan nodi ei fod yn bwysig bod rheini sydd yn talu am oriadau wedi ei cynrychioli arno.

5.3 Mynwent – nodwyd nad oedd y pwyllgor wedi cwrdd. Mae'r gwaith clirio yn parhau. Cadarnhaodd y clerc bod yr arwydd dim parcio wedi cyrraedd bellach ac angen ei osod ynghyd ac arwydd dim cwn.

5.4 Cyllid a Pholisi – nid yw'r pwyllgor wedi cwrdd ers y cyfarfod diwethaf. Nododd Ian Evans bod y clerc (fel rhan o'i hyfforddiant ei hun) wedi paratoi polisi hyfforddiant a datblygiad. Cytuno byddai'r ddogfen yn cael ei ystyried gan y pwyllgor y neu cyfarfod nesaf. Y clerc i'w anfon i'r aelodau perthnasol er gwybodaeth. CET

Pwysleiswyd bod gan y Cyngor gyllideb ar gyfer hyfforddiant a bod croeso i aelodau wneud unrhyw hyfforddiant berthnasol. Nododd Ian Evans bod Un Llais cymru yn cynnal sesiynnau defnyddiol gan nodi ei fod yn teimlo dylai fod yn hanfodol i pob aelod wneud y sesiwn ar y Cod Ymddygiad. Er mwyn cofrestru ar unrhyw sesiwn, dylai aelodau gadarnhau gyda'r clerc er gwybodaeth.

5.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985) – cadarnhawyd bod y pwyllgor wedi cwrdd cyn cyfarfod y Cyngor Llawn. Bydd y cofnodion i'w cylchredeg i'r aelodau er gwybodaeth.

5.6 Llwybrau – bu Ian Evans ddatgan diddordeb a pheidio cymryd rhan yn y drafodaeth. Cadarnhawyd bod y pwyllgor wedi cwrdd a bod cofnodion y cyfarfod wedi eu dosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth. Nodwyd bod Dafydd Griffiths wedi gwneud gwaith manwl i dynnu gwybodaeth am gylchdeithiau yn yr ardal at ei gilydd. Mae'r teithiau yma wedi eu hyrwyddo yn y gorffennol. Bu'r pwyllgor nodi bod y Cyngor eisioes yn torri nifer fawr o'r llwybrau ar y cylchdeithiau, a'u bod rhan fwyaf yn dilyn llwybr yr arfordir a/neu lonydd. Bu'r pwyllgor argymhell mabwysiadu'r cylchdeithiau gan flaenoriaethu rheini sydd yn Ardal Llaneilian yn eu cyfanrwydd. Byddai angen cydweithrediad cynghorau eraill er mwyn sicrhau bod llwybrau sydd yn croesi'r ffin yn cael eu cynnal. CSYM sydd yn cynnal llwybrau ardal Amlwch, bu Aled Jones gadarnhau nad oedd Cyngor Cymuned Rhosybol yn cynnal llwybrau cyhoeddus. Bu Dafydd Griffiths gytuno twtio'r mapiau a'u hafnon ymlaen i'r Cyngor Llawn er gwybodaeth.

Bu Glenys Jones ofyn os mai ar gais CSYM ynteu ar gais y Cyngor Cymuned oedd gamfa newydd wedi ei ddanfôn i'r Waen. Nodwyd bod gamfa yn y cyffiniau wedi bod mewn cyflwr gwael. Cytuno cysylltu a CSYM am fwy o wybodaeth.

Nodwyd bod dodrefn wedi eu gosod ar hyd llwybr Cadi Rondol, ond heb eu ffensio i fewn – i ba pwrpas mae rhain wedi eu gosod yn ganol y cae? Nodwyd bod y cais i gofrestru'r rhan coll o'r llwybr wedi ei gyflwyno i CSYM. Mae disgwyl gwybodaeth pellach gan CSYM. Cafwyd wybod bod Llwybr Cadi Rondol wedi ei hyrwyddo ar yr hysbysfwrdd ym maes parcio Gardd Top Rallt, ond bod angen bwrdd newydd erbyn hyn.

Trafodwyd prosiect posib i gofnodi enwau lleoedd traddodiadol/hanesyddol. Awgrymwyd bod Dafydd Griffiths yn prynnu mapiau er mwyn gallu cofnodi enwau arnynt. Cytuno yn unfrydol gwario hyd at £50 ar fapiau o'r fath. Nodwyd bod posib cydweithio gyda Llanbadrig ac Amlwch i ddenu grant tuag at brosiect i gofnodi enwau a dylunio byrddau gwybodaeth.

Trafodwyd dyfodol y Gors, gan nodi fod y tir wedi bod yn gyfrifoldeb i elusen hyd yn ddiweddar (2011). Cytuno cysylltu a'r Comisiwn Elusennol am fwy o wybodaeth a chwilio yng nghofnodion y Cyngor i weld os oes unrhyw wybodaeth pellach. Unwaith bydd mwy o wybodaeth i'w gael bydd posib trefnu cyfarfod gyda swyddogion perthnasol CSYM i drafod datblygiadau posib.

5.7 Pwyllgorau Allannol – bu Dafydd Griffiths nodi er gwybodaeth ei fod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Tref Amlwch ar ran Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon. Nododd bod y Cyngor Tref wedi penderfynnu gadael y Bartneriaeth am y tro.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau – Bu un cais i'w ystyried – HHP/2020/297 – Tyn Gamfa, Penysarn. Nodwyd pryder bod llwybr cyhoeddus 24/030/1 yn pasio tu cefn i'r ty, a byddai'r gweithdy newydd yn agosach at derfyn yr eiddo na'r adeilad sydd i'w ddyrchwyl. Cytuno peidio gwrthwynebu ond tynnu sylw bydd angen sicrhau na fydd lleoliad y gweithdy newydd yn amharu ar yr hawl tranwy ger y datblygiad, a bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau na fydd rhwystrau ar yr hawl tramwy yn ystod y cyfnod adeiladu. CET

6.2 Penderfyniadau – Dim

6.3 Gorfodaeth – cafwyd lythyr gan CSYM yn cadarnhau bod achos gorfodaeth Gadfa Newydd wedi ei gau wedi'i ganiatad cynllunio gael ei gymeradwyo. Cafwyd ebost ynglyn a Rhos Mynach Fawr a Llys Dulas gan nodi bod yr adran gynllunio yn disgwyl ymateb gan yr adran bolisi a chyngor

cyfreithiol. Gobeithir bydd mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd pryder yr aelodau, a'r gymuned gyfan am achos o ganlyniad i ddatblygiad yn Lane Ends. Nododd y clerc bod cwynion di-ri a phryderon wedi eu nodi am maint sylweddol o glai sydd wedi ei dyrchio o Lane Ends a'i daflu i lawr y glogwyn gyferbyn tua'r traeth. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi cysylltu a CSYM a bod achos gorfodaeth wedi ei gofrestru ac bod yr adran forwrol hefyd yn ymwybodol. Nododd y clerc ei bod ar ddeall bod nifer o wahanol adrannau o fewn CSYM yn edrych i fewn i'r mater. Bu i Aled Jones anfon at y swyddogion gorfodaeth i gefnogi pryderon y Cyngor Cymuned.

7 **Materion Ariannol**

7.1 **Taliadau** - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –

£250.00 Rhys Williams (torri llwybr)
£50.00 Ambiwllans Awyr Cymru
£50.00 Radio Ysbyty Gwynedd
£917.53 Cyflog Clerc (ac ad-daliad Mynwent Bosra)
£235.00 A Ganderton (symud coeden Nadolig)
£55.00 JRE Design (arwyddion)

Nodwyd bod angen trosglwyddo arian am y goeden Nadolig o Gronfa TMI.

CET

Nodwyd bod angen diweddaru cyfeiriad y Cyngor ar rai o arwyddion y pentref.

CET

7.2 **Ceisiadau am Arian** – Daw un cais i'w ystyried a hwnw gan yr Urdd (Cenedlaehol) yn gofyn am gyfraniad tuag gynnal Eisteddfod 2022. Cytuno peidio cefnogi, cynnig Elfyn Hughes, eilio Gordon Hayes, cefnogi yn unfrydol.

7.3 **Penodi Archwiliwr Mewnol** – Cytuno yn unfrydol penodi Alun Foulkes i gwblhau'r gwaith eto ar gyfer 2020/21.

8 **Iechyd a Diogelwch**

8.1 **Ffliw Adar** – nodwyd bod pryder mawr yn y gymuned bod llwybrau cyhoeddus mewn ardaloedd penodol o fewn y parth yn parhau i fod ar agor (adeg traed a'r gennau roedd llwybrau cyhoeddus wedi cau). Aled Jones i gysylltu a Huw Percy i wneud ymholiadau.

AMJ

Nodwyd pryder bod lloliad yr achos cyntaf y tu allan i'r parth 3km oedd wedi ei adnabod gan y Llywodraeth. Cafwyd wybod bod Aled Jones wedi cysylltu ag Undeb y Ffermwyr a bu iddo ddarllen yr ymateb oeddent wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth. Cafwyd wybod gan Ian Evans bod swyddogion LLC wedi bod o amgylch pob ty yn y gymuned yn holi am adar, gydag ymweliad pellach gan liffeddygon i'r lleoedd hynnu oedd yn cadw adar. Mae disgwyl trydydd ymweliad o fewn yr wythnos.

8.2 **Palmant A5025 Cerrig Man** – nid oes diweddariad am ddiogelu'r palmant ac mae'r rhwystrau yn parhau i fod yn eu lle.

8.3 **Mwd ar y Ffordd** - nodwyd siom am gyflwyr y palmant ger Marie Currie, gan nodi bod mwd ym mhobman a'i fod yn llithrig iawn i gerbydau a phobl ar droed. Gofynnwyd os mai'r ffermwr ynteu CSYM sydd yn gyfrifol o glirio'r llanast. Cytuno cysylltu yn swyddogol a CSYM i ofyn iddynt drefnu cirio'r gyffordd a chysylltu hefo'r tir feddianwr. Nodwyd hefyd bod postyn ar y llwybr beicio wedi cael ei ddifrodi.

CET

8.4 **Clawr Draen – Lon Tyddyn Waen** – daethpwyd at sylw'r aelodau bod clawr draen tu allan i Ynys Bach wedi gostwng a bod angen gosod clawr newydd. Y clerc i gysylltu a CSYM.

CET

9 **Gohebiaeth**

Cadarnhaodd y clerc bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

Daethwyd at sylw'r aelodau bod cais am gystadleuaeth i ddylunio masg. Wedi ystyried y cais, cytuno peidio cynnal cystadleuaeth o'r fath ar hyn o bryd gan nodi bod cystadleuaeth gan yr ysgol dros hanner tymor (wythnos Cwl Cymru) a bod dylunio masg yn rhan o waith ysgol rhai disgyblion oed uwchradd

10 **Materion Priffyrdd**

Cafwyd grynodedb gan Ian Evans o'r hyn drafodwyd gyda Alun Roberts yn ol ym mis Awst, a'r cyfarfod yn y pentref oedd i ddilyn. Nodwyd bod llinellau melyn a system un ffordd wedi eu trafod a bod pawb oedd yn bresennol ond am Dafydd Griffiths wedi bod o blaid cyflwyno'r fath newidiadau

yng nghanol y pentref. Ni fu pleidlais swyddogol fodd bynnag. Teimlai'r aelodau oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd fod y swyddog wedi bod yn hyderus byddai posib cael system un-ffordd rhwng Stad Tynrhos a Penysarn Fawr. Bu Dafydd Griffiths gadarnhau ei fod wedi ysgrifennu at CSYM yn nodi ei farn bersonol yn dilyn y cyfarfodydd. Pan dderbyniwyd ymateb CSYM roedd yr aelodau wedi eu siomi, cytuno ystyried y sefyllfa eto cyn cysylltu a CSYM am drafodaeth pellach. Bu'r aelodau gydnabod bod gan unigolion farn cryf am wahanol agweddau ond yn ddemocrataidd byddai angen parchu penderfyniad y Cyngor fel corff a pheidio tynnu yn groes.

Teimlai Elfyn Hughes nad oedd swyddogion CSYM wedi ystyried pob posibilrwydd yn hytrach ond wedi ystyried un opsiwn a wedi ei daflu o'r neilltu. Gofynnodd bod CSYM yn ail ystyried y cynnig eto yn ei gyfarfodydd.

Bu Carol Whitaker nodi ei bod yn byw yng nghanol y pentref a bod wir angen arafu cerbydau mawr wrth iddynt ruo drwy'r pentref. Nododd bod trigolion y stryd ofn tu allan i'w cartrefi tra bod eu tai yn agor yn syth ar y palmant. Bu Gordon Hayes gytuno gan nodi bod diogelwch y pentref yn bwysig i bawb nid yn unig beicwyr. Gofynnodd Hefina Williams beth oedd barn y pentref yn gyffredinol gan nodi bod cynnal gwsanaeth bysiau yn hanfodol. Bu Arfon Morgan ac Alan Williams gytuno bod angen ymgynghoriad gyda'r gymuned cyn dod i benderfyniad. Nododd Glenys Jones bod son wedi bod am system un ffordd dros dro er mwyn asesu sut oedd yn gweithio os o gwbl.

Cadarnhaodd Ian Evans bod ymgynghori a'r gwasanaethau brys a'r gwasanaeth bysiau yn rhan o broses CSYM. Byddai angen i CSYM ystyried os ydi system un ffordd yn bosib gyntaf cyn ymgynghori ymhellach. Bu Elfyn Hughes gytuno gan nodi bod y fath ymgynghoriad yn rhan o'r broses cyfreithiol i newid trefn priffyrdd.

Bu Dafydd Griffiths Griffiths gytuno a nifer o bwyntiau a'r pwysigrwydd o gael pentref diogel. Nododd hefyd bod angen i'r pentref fod yn le pwrpasol yn hytrach na rhywle i yrru drwyddo. Teimlai bod CSYM wedi cam arwain yr aelodau yn y cyfarfod wrth nad oedd wedi gwirio'r polisiau a canllawiau'r grant. Gofynnodd Dafydd Griffiths bod yr aelodau yn ystyried yr hyn oedd o wedi ei gyflwyno i'r adran briffyrdd yn dilyn y cyfarfodydd cyn gwneud penderfyniad. Nododd nad oedd CSYM wedi ymateb iddo yn bersonol wedi iddo anfon y papur atynt yn nodi ei bryderon. Cynnig bod dogfennau Dafydd Griffiths yn cael eu hafnon i'r aelodau eu hystyried cyn y cyfarfod nesaf, cynnig Dafydd Griffiths, eilio Elfyn Hughes, ni fu gwrthwynebiad.

CET
DG

Gofynnodd Gordon Hayes os oedd unrhyw ddiweddariad am yr hen arwydd yn y sgwar gan nodi ei fod wedi disgyn ers peth amser bellach. Y Clerc i gysylltu a threfnu casglu'r arwydd a't postyn.

CET

Nodwyd bod cyflwr y lon ger Bryn Mor angen sylw.

CET

Nodwyd nad oedd yr arwyddion 20mya wedi eu gosod fyth. Y clerch i anfon y wybodaeth perthnasol at Aled Jones.

CET
AMJ

Cytuno edrych ar y llwybr o Bryn Tirion i lawr at Tan y Fron fel ffordd posib i blant gerdded i'r ysgol.

DG

11 Hysbysfwrdd

Nodwyd bod yr hysbysfwrdd wedi disgyn a'i fod gan y clerch i'w drin. Trafodwyd lleoliad newydd gyda dau leoliad posib (yng nghysgodfan bws ger y siop neu tu cefni'r mainc ary sgwar). Nodwyd oherwydd pwysau'r hysbysfwrdd bod angen ei osod ar ddau bolyn. Cytuno yn unfrydol cyflwyno cais i CSYM i gael ei osod yn y sgwar.

CET

12 Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf

Nododd Dafydd Griffiths bod Cynllun Adfywio Economaidd Amlwch wedi ei gwblhau gan CSYM erbyn hyn a gofynnodd os fyddai posib gwneud cais am gopi er gwybodaeth.

CET

13 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Mawrth 9, 2021 am 7 o'r gloch. Bu'r cyfarfod orffen am 21.35

**Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd**

CET2/2021